**Cofnodionss**
**o Gyfarfod y Bwrdd**
**a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021,**
**(yn electronig drwy Microsoft Teams ac wedi'i ffrydio'n fyw ar y we)**

| **Yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Jyoti Atri | (JA) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Iechyd a Llesiant |
| Diane Crone | (DC) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) |
| Eleri Davies | (ED) | Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro |
| Kate Eden | (KE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards | (DE) | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Sian Griffiths | (SG) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) |
| | | |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |
| Judi Rhys | (JR) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Mark Bellis | (MB) | Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol WHO ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant |
| Sian Bolton | (SB) | Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, Y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth |
| John Boulton | (JB) | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |

| | | |
|---|---|---|
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Alex Lewis | (AL) | Rheolwr Prosiect Dadansoddeg Gorfforaethol (eitem 213.3/2021) |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| Sarah Morgan | (SM) | Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant (eitem 213.6.2/2021) |
| Richard Roberts | (RR) | Pennaeth y Rhaglen Clefydau y Gellir eu Hatal drwy Frechlyn (eitem 213.1/2020) |
| Stephanie Wilkins | (SW) | Cynrychiolydd y Fforwm Partneriaeth Staff |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RB-W) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Andrew Jones | (AJ) | Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus |
| Alison Ward | (AW) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) |

*Dechreuodd y cyfarfod am 10:15*

## PHW 211/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau

**Nododd** y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

Croesawodd JW bawb i'r cyfarfod, gan esbonio'r angen i barhau â chyfarfodydd rhithwir, gan ganolbwyntio ar agenda'n gysylltiedig â COVID-19. Roedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd ac i staff drwy ddolen ffrydio byw ar y wefan ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn arsylwi'r cyfarfod ar-lein.

Crynhodd JW rôl y Bwrdd fel Corff Llywodraethu'r sefydliad, gyda chyfrifoldebau penodol am: ddatblygu strategaeth a rhoi cyfeiriad iddi; adeiladu a chynnal partneriaethau strategol; pennu archwaeth risg a goruchwylio risgiau strategol; craffu ar berfformiad yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau a phennu naws a diwylliant y sefydliad. Roedd y Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau y gallai pob aelod o staff ddod i'r gwaith a bod ar ei orau, heb ofni anfantais na gwahaniaethu o unrhyw fath.

Dywedodd JW fod y Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd yn unol â Chod Ymddygiad ffurfiol y Bwrdd; gellir dod o hyd i'r fersiwn a ddiweddarwyd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Esboniodd hefyd fod y Bwrdd, yn unol â'i ymrwymiad i welliant parhaus, wedi addasu'r agenda ar gyfer y cyfarfodydd, er mwyn gwneud y gorau o'r amser a dreulir ar sicrwydd a chymeradwyo.

## PHW 212/2021 Datgan Buddiannau

Ni wnaeth aelodau'r bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

## PHW 213/2021 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

**PHW 213.1/2020 Rôl ICC yn y rhaglen frechu yn erbyn COVID (cyflwyniad)**

Croesawodd JW Dr Richard Roberts i'r cyfarfod a'i wahodd i wneud cyflwyniad i'r Bwrdd ar y rhaglen frechu yn erbyn COVID-19.
Rhoddodd RR gyflwyniad ar ffurf sleidiau a oedd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Y sefyllfa yn fyd-eang, yn y DU ac yng Nghymru o ran nifer yr achosion o COVID-19 a nifer y marwolaethau;
- Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd yn awdurdodi dau frechlyn hyd yma, gan nodi nad oedd yr awdurdodiad dros dro yn awgrymu bod unrhyw bryder; dilynwyd yr un broses graffu ag a wnaed ar gyfer unrhyw gynnyrch arall;
- Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran cyfrannu at y rhaglenni hyfforddi a lefel genedlaethol;
- Y grwpiau blaenoriaeth, yn unol â phenderfyniad y Cydbwyllgor ar gyfer Brechu ac Imiwneiddio (JCVI); roedd y rhain yn canolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf tebygol o ddioddef effeithiau difrifol yn sgil dal y feirws, ynghyd â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen;
- Y ffaith bod y gyfradd frechu ddyddiol yn cyflymu;
- Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran darparu diweddariadau dyddiol, ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

*Mae'r cyflwyniad ar gael yma - https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-papers/board-meetings/2020-2021/28-january-2021/28-january-2021-board-meeting-papers/*

Diolchodd JW i RR am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth a gwahoddodd yr aelodau i ofyn cwestiynau:

Gofynnodd SG a oedd y data a gofnodwyd yn caniatáu i Iechyd Cyhoeddus Cymru gael gwybodaeth am grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, a grwpiau eraill sy'n agored i niwed, a oedd yn cael eu brechu. Cadarnhaodd RR eu bod wedi cofnodi data ar y nifer sy'n manteisio ar yr holl raglenni brechu ac imiwneiddio; roedd hyn yn galluogi canolbwyntio ar unrhyw grŵp cymunedol lle yr oedd niferoedd is na'r disgwyl yn manteisio a y brechiad. Roedd cyfraddau brechu COVID-19 hefyd ar gael a darparwyd data i Fwrdd y Rhaglen Frechlyn a'r Byrddau Iechyd lleol.

Cyfeiriodd DE at safbwynt Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch yr amser wedi'i addasu rhwng y brechiad cyntaf a'r ail, a'i rôl o ran cynghori Llywodraeth Cymru ar y mater hwn. Esboniodd RR fod y JCVI wedi darparu'r cyngor ffurfiol a'i safbwynt mewn perthynas â'r oedi rhwng brechiadau; nod hyn oedd sicrhau bod mwy o bobl yn cael y dos yn gynharach, er mwyn darparu mwy o ddiogelwch i'r boblogaeth.

Diolchodd TC i RR am ei rôl arwain genedlaethol gyda'r rhaglen frechu COVID-19. Mynegodd hefyd ei gwerthfawrogiad o waith tîm y Rhaglen Clefydau y Gellir

eu Hatal drwy Frechlyn. Gofynnodd i RR grynhoi rolau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd mewn perthynas â'r rhaglen. Cadarnhaodd fod rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys: cyfrannu at dreialon o'r brechlynnau; darparu gwybodaeth i'r cyhoedd, gan gynnwys taflenni a gwybodaeth ar-lein; darparu e-ddysgu a rhywfaint o hyfforddiant ymarferol i fyrddau iechyd; ymateb i ymholiadau clinigol gan gydweithwyr gwasanaethau; cefnogi Byrddau Iechyd i ddarparu'r rhaglen frechu drwy ofal sylfaenol, canolfannau brechu torfol a thimau symudol; ac yn olaf, rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar benderfyniadau polisi a strategol.

Gofynnodd JR i RR am ei farn ynghylch a ddylai'r rhestr flaenoriaeth gynnwys athrawon. Nododd RR fod unrhyw athro a oedd: yn hynod fregus yn glinigol; mewn perygl; neu dros 50 oed, eisoes yn dod o fewn grwpiau blaenoriaeth JCVI. O ran amlygiad galwedigaethol i'r rhai dan 50 oed, nad oeddent yn dod o fewn y grwpiau blaenoriaeth, dywedodd RR mai bach iawn oedd y risg o salwch difrifol.

Diolchodd JW i RR unwaith eto am neilltuo amser yn ei amserlen brysur i gyflwyno i'r Bwrdd; cadarnhaodd y gallai aelodau anfon e-bost at HB i fynd ar drywydd unrhyw bwyntiau pellach gyda RR.

*Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen frechu ar gael yma - https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/*

**PHW 213.2/2021 Adroddiad y Prif Weithredwr**

Tynnodd TC sylw at y materion allweddol canlynol a gynhwysir yn yr Adroddiad:

- Y cyfarfod diweddaraf gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; roedd hyn yn rhan o nifer o gyfarfodydd mewn gwahanol fforymau.

- Mynychu dau gyfarfod Pwyllgor Llywodraeth Cymru yr wythnos hon - y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon. Diolchodd TC i MB a Summina Azam am y dystiolaeth ar iechyd a chynaliadwyedd a ddarparwyd i Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: *Rhwystrau i Weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus*. Hefyd estynnodd TC ei diolch i Giri Shankar a Robin Howe am eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: *COVID-19: sesiwn dystiolaeth,* gan gynnwys tystiolaeth ar epidemioleg, profion torfol a brechiadau. Diolchodd TC hefyd i SB am lunio'r papurau ysgrifenedig; roedd Cadeiryddion y ddau Bwyllgor wedi gwneud sylwadau ar ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig. Roedd y papurau tystiolaeth ysgrifenedig wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Bwrdd ac maent ar gael yma - https://phw.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-papers/board-meetings/2020-2021/28-january-2021/28-january-2021-board-meeting-papers/

- Ychwanegodd SB fanylion am waith a wnaed gan y Labordy Data Rhwydweithiol (partneriaeth â Phrifysgol Abertawe, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Sefydliad Iechyd); roedd hyn wedi arwain at gyhoeddi Adroddiad (Exploirng demographic variation in people advised to shield) yn disgrifio demograffeg a chyflyrau iechyd sylfaenol y boblogaeth sydd ar y rhestr warchod ledled y DU.

Talodd JW deyrnged i TC a phawb a fynychodd ddwy sesiwn y Pwyllgorau. Roedd y dystiolaeth awdurdodol ac addysgiadol a gyflwynwyd wedi creu argraff ar aelodau'r pwyllgor. Yna gwahoddodd JW unrhyw gwestiynau neu sylwadau.

Myfyriodd SG ar yr angen i ystyried effeithiau tymor hwy COVID-19, nid yn unig 'covid hir', ond hefyd yr effaith ar benderfynyddion ehangach, gan gynnwys ar addysg, cyflogaeth a lles. Cytunodd TC, er bod yn rhaid canolbwyntio ar ddiogelu'r boblogaeth ar hyn o bryd, roedd yr angen i adeiladu momentwm o ran ystyried y niwed ehangach yn glir. Nododd fod y Cynllun Gweithredol yn adlewyrchu hyn ac, er gwaethaf y capasiti cyfyngedig presennol, roedd y Tîm Gweithredol yn ystyried y cam hollbwysig hwn.

Adleisiodd MB bwysigrwydd mynd i'r afael â'r agenda hollbwysig hon, o ystyried effaith hysbys, a chynyddol y pandemig ar niwed ehangach. Tynnodd sylw at waith sydd ar y gweill ar effaith diweithdra ar iechyd meddwl a llesiant ac ar grwpiau sy'n agored i niwed.
Tynnodd JA sylw at y ffaith y byddai'r gwersi a ddysgwyd o COVID-19 yn llywio ac yn gwella'r ymateb i reoli clefydau trosglwyddadwy ac anhrosglwyddadwy yn y dyfodol, gan nodi'r cysylltiad cynhenid rhwng diogelu iechyd a'r agenda iechyd cyhoeddus ehangach.

**Penderfynodd** y Bwrdd **dderbyn** y wybodaeth a rannwyd a **chymerodd sicrwydd** o'r camau gweithredu sydd ar y gweill yn erbyn pob un o'r eitemau a drafodwyd.

**PHW 213.3/2021 Adroddiad Integredig ar Berfformiad**

Tynnodd HG sylw at y nodweddion newydd yn yr adroddiad y mis hwn. Nododd y byddai'n dilyn y fformat arferol gan ofyn i bob Cyfarwyddwr arweiniol yn ei dro wneud sylwadau ar yr adran sy'n berthnasol iddo ef/hi:

<u>Y gweithlu</u>
Tynnodd NL sylw at y pwyntiau canlynol:

- Cynnydd bach mewn salwch ac absenoldeb, yn gysylltiedig â straen a gorbryder yn bennaf. Cadarnhaodd y defnydd o adnoddau llesiant i gefnogi staff, a'r cyd-drafod manwl gyda chynrychiolwyr Undebau Llafur a'r Fforwm Partneriaeth ar y mater hwn;
- Trefniadau recriwtio parhaus a'r sefyllfa sefydlog o ran trosiant;

- Lefelau cydymffurfiaeth digyfnewid o ran gofynion hyfforddiant statudol a gorfodol; roedd effaith a phwysau COVID-19 yn ffactorau allweddol yn hyn o beth;
- Brechu 640 o staff, ac mae'r niferoedd yn cynyddu bob dydd;
- Niferoedd bach o ffurflenni arolwg staff wedi'i llenwi; ategwyd y rhain gyda: 'gwiriadau llesiant' gan reolwyr; cyfarfodydd tîm; arfarniadau; ac asesiadau risg. Roedd y cyfarfodydd gyda'r Undebau Llafur a'r Fforwm Partneriaeth hefyd yn parhau.

Holodd SW ynglŷn â mesur effeithiolrwydd dulliau cymorth ar gyfer y staff. Amlinellodd NL y trefniadau a nododd y bwriad i'w datblygu ymhellach.
Yn ei rôl fel Cadeirydd y Grŵp Cynghori ar Bobl, gofynnodd JW i MM wneud sylwadau ar y pwynt hwn.

Cyfeiriodd MM at gyfarfod diweddaraf y Grŵp Cynghori ar Bobl, pan oedd trafodaethau wedi cynnwys: y cynnydd yn niferoedd y staff a frechwyd; iechyd a llesiant staff a'r dulliau cymorth sydd ar waith; yr angen i ategu ymatebion o arolygon staff, o ystyried cyfraddau ymateb isel; cyfraddau salwch ac absenoldeb; asesiadau risg personol.

Croesawodd MM yr e-bost diweddar gan TC at y staff ynghylch yr angen i bawb ofalu am eu llesiant ac yn tynnu sylw at y ffynonellau cymorth sydd ar gael. Yn olaf, nododd MM y gwaith sydd ar y gweill ar recriwtio.

Ychwanegodd JR fanylion am drafodaethau'r Pwyllgor Cynghori ar Bobl, gan atgyfnerthu'r angen am fesurau effeithiol i gefnogi iechyd a llesiant y staff.

Cyllid

Nododd HG y dylid cynnwys yr adroddiad ariannol llawn a'r data atodol a ddarperir ar y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad. Tynnodd sylw at y materion canlynol:

- Y gwaith manwl sydd ar y gweill i sicrhau bod perfformiad yn ystod y flwyddyn yn parhau ar y trywydd cywir;
- Cipio data misol, ac ad-daliad Llywodraeth Cymru o wariant yn gysylltiedig â COVID-19. Roedd hyn yn gofyn am ddadansoddiad data manwl a rhagolygon cywir, yn enwedig ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig â phrofi, er mwyn llunio rhagdybiaethau cynllunio cywir;
- Roedd y gwariant Cyfalaf sylweddol yn ystod y flwyddyn, yn uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, ac roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â COVID-19;
- Cymhlethdod strategaeth y gyllideb ar gyfer 2021/22, oherwydd goblygiadau parhaus COVID-19.

Gwahoddodd JW DE i wneud sylwadau, yn ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Talodd DE deyrnged i HG a'r tîm cyllid ar eu trefniadau rheoli ariannol trylwyr a chadarnhaodd fod y Pwyllgor yn

parhau â'i oruchwyliaeth o wariant penodol ar COVID-19. Nododd yr aelodau y trafodaethau amserol gyda Llywodraeth Cymru ar ad-dalu'r gwariant hwn.

Cynllun Gweithredol
Atgoffodd HG y Bwrdd o effaith ail don y pandemig ar raglenni gwaith; roedd yr adroddiad yn cynnwys newidiadau i'r dyddiadau targed, ac roedd y Bwrdd wedi cael ei hysbysu am bob un wrth iddynt ddigwydd.

Dangosyddion Ansawdd
Cyfeiriodd SS at gynnwys dangosyddion ansawdd yng Ngham 2 datblygiad y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad. Gwnaeth sylwadau ar statws 'efydd' ansawdd data sydd ar gael drwy'r system DATIX a'r gwaith sydd ar y gweill i wella systemau data ffynhonnell yn gyffredinol. Nododd SS fod System Rheoli Digwyddiadau Cymru Gyfan wed ei chyflwyno; byddai hyn yn lleihau'r angen am ymyriadau â llaw ac yn gwella ansawdd y data

Yn olaf, cadarnhaodd SS y byddai adroddiadau Ansawdd yn y dyfodol yn amlygu themâu'r cwynion a ddaeth i law, er mwyn cefnogi'r broses o ddysgu a gwella.

**Camau gweithredu: RB-W/SS**

Gwasanaethau Sgrinio
Adroddodd ED ar y broses barhaus o ailgychwyn sgrinio a'r cydweithio agos gyda Byrddau Iechyd i gynnal hyn ar y lefelau perfformiad a nodir yn yr adroddiad. Roedd y sefyllfa yng Nghymru yn adlewyrchu'r sefyllfa yng ngwledydd eraill y DU, o ystyried bod pum rhaglen wedi'u hatal yn gynharach ac effaith barhaus COVID-19. Canmolodd y timau sgrinio am eu perfformiad yn yr amgylchiadau heriol iawn hyn ac am y camau a gymerwyd i osgoi cynyddu'r ôl-groniad.

Aeth ED ymlaen i egluro bod y targedau Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2019/20 wedi cael eu cario drosodd; roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fonitro Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac yn darparu gwybodaeth am y sefyllfa yng Nghymru gyfan yn erbyn y targedau hyn. Parhawyd i adrodd ar raglenni gwyliadwriaeth yn fisol.

Diolchodd JW i ED am ei diweddariad a gwahoddodd gwestiynau.

Nododd JR effaith amserlenni colonosgopi estynedig ar lwybr sgrinio'r coluddyn. Cadarnhaodd ED y gwaith sydd ar y gweill gyda Byrddau Iechyd ar hyn. Gofynnodd JW i KE ystyried y mater hwn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

**Camau gweithredu: KE/AJ**

Holodd KE am yr amserlen bosibl ar gyfer ailddechrau lefelau arferol o brofion sgrinio serfigol mewn gofal sylfaenol. Crynhodd ED y trafodaethau sydd ar y gweill gyda chydweithwyr yn y maes gofal sylfaenol, gan nodi'r ffactorau sy'n cyfyngu ar gyfraddau sgrinio sy'n atal lefelau arferol o wasanaeth rhag ailddechrau yn y dyfodol agos.

Gofynnodd MM am eglurhad ar y sefyllfa o gymharu â gwledydd eraill y DU ac a oedd yr ôl-groniad yn cael yr un effaith ar bob grŵp cymunedol. Gofynnodd JW i KE a fyddai'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella hefyd yn ystyried y mater hwn yn ei gyfarfod nesaf.

**Camau gweithredu: KE/AJ**

<u>COVID-19</u>
Cytunodd y Bwrdd i drafod yr elfen hon o'r adroddiad fel rhan o'r eitem ganlynol ar yr agenda.
**Ystyriodd** y Bwrdd y trafodaethau a'r wybodaeth a nodir yn yr Adroddiad Integredig ar Berfformiad a chymerodd **sicrwydd** o ohonynt.

**PHW 213.4/2021 Diweddariad Cyffredinol ar y Coronafeirws Newydd (COVID-19)**

Rhoddodd ED ddiweddariad a oedd yn cwmpasu'r pwyntiau canlynol:

- Y sefyllfa fyd-eang bresennol; roedd bron i 100 miliwn o bobl wedi cael eu heintio ac yn anffodus, bu dros 2 filiwn o farwolaethau. Bu mwy na 100,000 o farwolaethau yn y DU, gyda bron i 5,000 o'r rheini yng Nghymru, yn anffodus;
- Roedd y duedd gyffredinol i Gymru ar i lawr, ond roedd hon yn duedd arafach na'r hyn a welwyd o'r blaen. Roedd amrywiadau ledled Cymru gyda'r nifer fwyaf o achosion yng ngogledd Cymru ar hyn o bryd;
- Roedd amrywiolyn y DU yn cynnwys 80% o achosion yng ngogledd Cymru a hyd at 50% mewn rhannau eraill o Gymru;
- Cyfraniad parhaus Iechyd Cyhoeddus Cymru at waith ledled y DU ar amrywiolion a monitro genomig;
- Gwaith partneriaeth gyda Byrddau Iechyd, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ar ystod o gyngor i gefnogi'r rhaglen frechu.

Diolchodd JW i ED am ei diweddariad llawn gwybodaeth a gwahoddodd unrhyw sylwadau neu gwestiynau:

Gofynnodd SG a oedd tystiolaeth o amrywiolyn De Affrica yng Nghymru ac a oedd y risgiau o'r amrywiolyn hwn yn fwy arwyddocaol. Cadarnhaodd ED fod nifer fach o achosion o'r amrywiolyn De Affrica wedi'u canfod yng Nghymru a bod y rhain yn cael eu monitro'n fanwl. O ran y risgiau o amrywiolynnau, adroddodd fod amrywiolyn y DU 30-50% yn fwy trosglwyddadwy, ond roedd yn rhy gynnar i ffurfio barn glir ar unrhyw wahaniaeth mewn cyfraddau marwolaeth. Tynnodd ED sylw at waith tîm PenGu (Genomeg) Iechyd

Cyhoeddus Cymru a oedd yn cyfrannu'n sylweddol at y corff byd-eang o wybodaeth mewn perthynas ag effeithiolrwydd brechlynnau.

Gofynnodd DE a oedd y ffaith bod y gostyngiad yn y cyfraddau wedi arafu yn deillio o amrywiolyn newydd y DU. Amlinellodd ED y farn ar hyn, ond pwysleisiodd bod angen rhagor o ddata. Nododd hefyd fod y gyfradd R yn is nag un yng Nghymru, gan nodi effaith y cyfyngiadau symud a mesurau cysylltiedig eraill.

**PHW 213.5/2021 Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad Gan Gadeiryddion y Pwyllgorau**

Nododd JW fod MM wedi darparu diweddariad ar gyfarfod y Grŵp Cynghori ar Berfformiad yn gynharach yn y cyfarfod; cadarnhaodd MM nad oedd ganddo unrhyw bwyntiau eraill i'w codi.

Estynnodd JW wahoddiad i DE a KE dynnu sylw at unrhyw faterion penodol o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

Gwnaeth DE sylwadau ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2021; yn unol â'r dull cyffyrddiad cywir, roedd y Pwyllgor wedi addasu ei agenda dros dro i ganiatáu mwy o amser i ganolbwyntio ar faterion penodol. Ym mis Ionawr, roedd hyn wedi cynnwys ffocws ar seiberddiogelwch a'r model Llywodraethu Integredig arfaethedig, fel y manylir yn ei adroddiad fel Cadeirydd.

Tynnodd DE sylw hefyd at Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru a'r adborth cadarnhaol ar Iechyd Cyhoeddus Cymru. Diolchodd i dîm Archwilio Cymru am ei gymorth. Adleisiodd JW sylwadau DE a diolchodd i Archwilio Cymru am eu perthynas adeiladol.

Cadarnhaodd KE y byddai'r Pwyllgor Ansawdd yn ystyried y ddau fater ychwanegol a nodwyd yn ystod cyfarfod y Bwrdd: (i) yr amserlenni colonosgopi estynedig a'u heffaith ar y llwybr sgrinio'r coluddyn cyffredinol a (ii) cymharu sefyllfa Cymru â gwledydd eraill y DU o ran yr ôl-groniad sgrinio, ynghyd ag ystyried unrhyw effaith wahaniaethol ar grwpiau cymunedol penodol.

**PHW 213.6/2021 Eitemau i'w Cymeradwyo**

**PHW 213.6.1/2021 Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 17.12.2020 a Chofnod o'r Camau Gweithredu**

**Cymeradwyodd** y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2020 fel cofnod gwir a chywir.

**PHW 213.6.2/2021 Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2019/20**

Wrth gyflwyno'r Eitem hon, nododd JW y gofyniad rheoliadol i ddarparu Adroddiad Blynyddol; roedd yn cydnabod bod angen rhagor o waith er mwyn

cau'r bwlch. Estynnodd JW groeso i SM i'r cyfarfod a'i gwahodd i gyfrannu at y trafodaethau.

Yna gofynnodd JW i NL grynhoi'r sefyllfa fel y nodir yn yr Adroddiad. Gwnaeth NL sylwadau ar:

- Y ffaith y bu cynnydd bach yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, er gwaethaf ymdrechion i ganolbwyntio ar amrywiaeth a chynhwysiant;
- Y gwaith modelu pellach i ddarparu rhagor o fanylion am feysydd penodol ac ymgysylltiad arfaethedig ag Undebau Llafur i ystyried y data;
- Yr angen i ystyried y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng nghyd-destun ehangach amrywiaeth a chynhwysiant a'r bwriad i nodi uchelgeisiau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyn o beth.

Ychwanegodd SM fanylion am y camau a gymerwyd hyd yma a'r cynlluniau arfaethedig i wella'r sefyllfa.

Diolchodd JW i NL a SM am eu diweddariadau; manteisiodd ar y cyfle hefyd i longyfarch SM ar yr ystod eang o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Croesawodd DE y bwriad i ganolbwyntio ar atebion mwy uchelgeisiol a chreadigol; byddai'r gwaith yn cyfrannu at greu Cymru decach.  Nododd natur tymor canolig i dymor hir yr agenda a chefnogodd oruchwyliaeth y Grŵp Cyngor ar Bobl o'r cynllun gweithredu arfaethedig.

Roedd DC hefyd yn cefnogi'r bwriad i ganolbwyntio'n benodol ar yr agenda hon, gan fyfyrio bod gan y sefydliad eisoes nifer o fodelau rôl benywaidd ar lefel uchel iawn.

Cydnabu TC y cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo dulliau creadigol o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant; byddai'r rhain yn cynorthwyo i ganolbwyntio ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Cadarnhaodd y dylid cynnwys y cynllun gweithredu a'i gyflawni'n gysylltiedig â blaenoriaethau sefydliadol ar gyfer y flwyddyn i ddod.
Wrth ddiolch i NL a SM, cadarnhaodd JW ymrwymiad y Bwrdd i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac i gefnogi'r gwaith o lunio a chyflawni cynllun gweithredu creadigol i gefnogi hyn, yng nghyd-destun yr agenda amrywiaeth a chynhwysiant ehangach.

Penderfynodd y Bwrdd **gymeradwyo** yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ar gyfer 2019/20 ac i roi'r **cyfrifoldeb** i'r Grŵp Cynghori Pobl dros oruchwylio'r cynllun gweithredu.

**Camau gweithredu: MM/NL**

**PHW 214/2021 Eitemau i'w nodi**

| |
| --- |
| Nid oedd unrhyw eitemau i'w nodi. |
| **PHW 215/2021  Dyddiad Cyfarfod Ffurfiol Nesaf y Bwrdd** |
| Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 25 Chwefror 2021 |
| **PHW 216/2021  Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |
| Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm. |